# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR
# COFNODION CYFARFOD 15fed CHWEFROR 2018

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Troedyraur ar nos Iau y 15fed o Chwefror yn Neuadd Ffostrasol am 7.30 y.h.

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng Julie Davies | Cyng Evan John Jones |
| | Cyng Maldwyn Lewis | Cyng Mark Davies |
| | Cyng Emyr Wyn Jones | Cyng Rhys Williams |
| | Cyng Llŷr Evans | Cyng Eirian James |
| | Cyng Owenna Davies | |

**Ymddiheuriadau** Cyng Roger Davies

**Clerc** Eleanor Colbourne

Cyn dechrau'r cyfarfod llongyfarchwyd y Cyng Rhys Williams ar ei ddyweddiad yn ddiweddar.

**1. Derbyn ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng Roger Davies

**2. Cadarnhau cofnodion**
Cynigiwyd gan y Cyng Mark Davies ac fe eiliwyd gan y Cyng Emyr Wyn Jones fod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

**3. Datgan diddordeb**
Datgelodd y canlynol ddiddordeb mewn un eitem oedd ar yr agenda
- Cyng Rhys Williams – trafod ceisiadau ariannol
- Cyng Maldwyn Lewis – trafod ceisiadau ariannol
- Cyng Julie Davies – trafod ceisiadau ariannol
- Cyng Llŷr Evans – trafod ceisiadau ariannol
- Cyng Evan John Jones – trafod ceisiadau ariannol

**4. Gwybodaeth yn codi o'r cofnodion**
- Diffbriliwr Ffostrasol – roedd y clerc wedi cysylltu i ofyn i Mr Julian Evans i edrych ar diffribliwr Ffostrasol.
- Penderfynwyd y dylai'r clerc sychu'r bocsys pan fydd yn rhoi gwybodaeth yn y bocsys. Cynigiodd y Cyng Llyr Evans i wneud bocs Brongest.
- Cymraeg yn y gweithle – hysbyswyd y cyngor cymuned gan y Cynghorydd Sir fod yr ymgynghoriad cyntaf wedi cau. Roedd y Cyng Maldwyn Lewis yn mynd i wneud rhestr o fusnesau'r ardal a'i anfon iddynt a efallai cynnig iddynt ddod allan i gwrdd a'r cyngor cymuned.

**5. Materion y Cynghorydd Sir**
- Rhoddwyd posteri i'r Cyng Llŷr Evans i roi ym mhocs Brongest ynglŷn â cau'r Swyddfa Bost.
- Roedd grantiau ar gael ar gyfer dathlu y 'Suffragettes'
- Cymunedau iachach – 180+ ychwanegol o ofalwyr

**6. Gohebiaeth**

- Llythyr oddi wrth Neuadd Coedybryn (yn amgaeëdig) – penderfynwyd ein bod yn rhoi poster i fyny yn y bocsys yn hysbysu ein bod yn casglu sbwriel ar y 23ain Mawrth, 2018 am 5.00 o'r gloch. Y clerc i baratoi poster.
- Llythyr o'r Swyddfa Bost (yn amgaeëdig) – er gwybodaeth
- Ebost oddi wrth Rob Taylor (yn amgaeëdig) – y Cyng Rhys Williams yn mynd i ymateb i ofynion Rob Taylor
- Costau Etholiadol (yn amgaeëdig) – derbyniwyd hysbysiad yn dweud y byddant yn tynnu £233.30 allan o'r Praesept. Angen i'r clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir Ceredigion i weld a byddant yn barod i dderbyn siec am y £233.30 yn lle ei dynnu allan o'r Praespet.
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (llythyr yn amgaeedig ond nid y ddogfen) – er gwybodaeth

**7. <u>Ariannol</u>**

Talwyd y canlynol:-

Treth y clerc - £87.60

Tâl yClerc - £350.02

Trafodwyd bod 2 neu 3 yn dod at ei gilydd i wneud ffurflen grant i fynd allan i gymdeithasau.

**8. <u>Diffibriliwr ar gyfer Brongest a Maesllyn</u>**

Penderfynwyd cadw £2000 yn ôl tuag at y diffibriliwr Brongest a Maesllyn.

**9. <u>Costau ar gyfer y Wefan</u>**

Heb derbyn anfoneb am y gost.

**10. <u>Cyfraith Cynllunio yng Nghymru</u>**

Mae'n debyg bod y Cyngor Sir yn mynd i ymateb.

**11. <u>Llythyr Capel Cynon</u>**

Angen i'r clerc i ddilyn hwn i fyny.

**12. <u>Cyfansoddiad</u>**

Dosbarthwyd copi Saesneg i bawb.

**13. <u>Diogelu Data (GDPR)</u>**

Penderfynwyd gadael yr eitem yma tan y cyfarfod nesaf a bydd y Cyng Rhys Williams wedi paratoi crynodeb.

**14. <u>Eitemau i'w trafod yn y cyfarfod nesaf</u>**

Ceisiadau lleol a chenedlaethol; Costau 2 diffibriliwr; Ffurflenni banc; Cyfansoddiad; Cynllunio; Diogelu Data; Cynghorydd Newydd

**15. <u>Dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod nesaf</u>**

Penderfynwyd symud y cyfarfod ymlaen wythnos gan fod dyddiad cau ceisiadau cynghorydd ar y 7fed o Fawrth 2018.